Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, nos Fawrth, 18 Hydref 2016 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room on Tuesday, 18 October 2016 at 6.00pm.

Presennol*/Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair***/in the chair),* John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Richard Jones, Jane Roche

Ymddiheuriadau/*Apologies*—Y Cyngh./Cllrs Akira Shimazaki, Catrin Miles

Cyflwyniad / Presentation:

Calonnau Cymru / Welsh Hearts: Diffibriliwr / Defibrillator.

Arddangoswyd diffibriliwr gan Mr Julian Evans, Cei Newydd, a rhoddodd eglurhad o weithdrefnau'r i-pad a gwybodaeth am hyfforddiant llawn er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae sawl ardal wledig yng Ngheredigion wedi eu gosod mewn mannau hawdd eu gafael, ac maent ar gael ar safle stordy Tesco, Castell Aberteifi a Chlwb Rygbi Aberteifi. Amcangyfrifir y pris i'w brynu oddeutu £1,000 sydd yn cynnwys blwch i'w storio. Mae batris newydd tua £150 ond disgwylir iddynt bara am 5/7 mlynedd. Cytunodd Mr Evans ddanfon rhagor o wybodaeth ymlaen.

A demonstration was given by Mr Julian Evans, New Quay, and a full explanation of the procedures involved in the use and the training of the i-pad. The rural areas of Ceredigion had already placed a number of defibrillators in accessible areas of the community, and the town of Cardigan had various instruments placed at the Tesco stores, Cardigan Castle and the rugby club. The cost of a defibrillator is approx. £1,000 which includes a housing cabinet. Replacement batteries cost £150 and are expected to function for 5/7 years. Mr Evans agreed to forward further information in due course.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfon sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	*Cyfeiriad /* Address	*Y Bwriad / Proposal*	*Sylwadau / Observations*
A160926	11 High Street	Existing ATM to be lowered. Internal door cut out and works to elevation to meet DDA guidelines.	*Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwellhad i'r gwasanaeth.* Council supports the improvement to the service.

Datgan diddordeb / Declaration of interest:
Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis

Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

(a) **Amser cynnau'r goleuadau ar 3 Rhagfyr / Time of lights switch-on on 3 December. Awgrymwyd bod y goleuadau yn cael eu cynnau gan y Maer am 4.30yp gan obeithio y bydd y siopwyr yn dal i fod yn y dref. Mae angen cyfleu'r wybodaeth i Menter Aberteifi.**
It was recommended that the Mayor switches on the lights at 4.30pm in order to keep the shoppers in town. Menter Aberteifi to be informed.

(b) **Cystadleuaeth ffenestri'r siopau /** Shop window competition.
-++-+Y Maer a Mrs Diane Vickers (*The Best Of…*) i feirniadu. Tarian yn wobr.
The Mayor and Mrs Diane Vickers (*The Best Of…)* to judge. Shield as prize.
Awgrymwyd bod y Maer a Mrs Vickers yn cyflawni'r ddefod.
It was recommended that the Mayor and Mrs Vickers would serve as judges.

Cae Chwarae Netpwl / Netpool Play Area

E-bost oddi wrth Mr Paul Arnold (Pennaeth y Gwasanaethau Technegol, CSC):
Bydd y cyngor sir yn symud yr holl gyfarpar sydd ar Gae Chwarae Netpwl ar ddiwedd mis Tachwedd, gan greu man chwarae wedi ei dirlunio ar y safle. Bydd y cyfarpar a glustnodir gan gyngor y dref yn cael eu symud i storfa'r cyngor.
Ychwanegodd y Maer bod Ms Catherine Morgan (Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf) wedi bod yn allweddol drwy gynllunio'r safle newydd yn Netpwl. Disgwylir dyddiad ac amser pendant i gyflawni'r gwaith oddi wrth Mr John Hadlow, Arolygydd Meysydd a Gerddi'r cyngor sir.

E-mail from Mr Paul Arnold (Head of Technical Services, CCC):
The county council will remove the play equipment at Netpool during the last two weeks of November.
The authority will create a natural landscaped play provision on the site.
The equipment minuted below will be delivered to the rugby ground store room.
The Mayor added that Ms Catherine Morgan (Families First Coordinator) had been instrumental in creating the new play provision at Netpool. Confirmation of time and date of commencement of work is expected from Mr John Hadlow, the county council Ground Maintenance Supervisor for Parks & Gardens.

Minute from 13 January 2015 sub-committee meeting.

> *"It was also agreed that the following items could be stored for future use either on the King George 5th Playing Field or the Skateboard Park: 1 swing bay 2 flat seats, four-person rocker seat, spinning wheel/drum roll. The equipment is to be kept under the rugby stand store room. The two benches, the litter bin and the picnic table to remain on site."*

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

(a) **System sain /** PA system
Awgrymwyd bod y Maer yn hel gwybodaeth am declyn addas.
It was recommended that the Mayor obtains information regarding the purchase of an-+ appropriate sound system.

(b) **Gan y disgwylir Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys roi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Tachwedd y cyngor, gofynnodd y clerc i'r aelodau anfon cwestiynau ymlaen llaw.**
As the Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner is expected to4 give a presentation at the November council meeting, the clerk asked councillors to forward appropriate questions to be forwarded to the Commissioner.

Er gwybodaeth / For information

Cyflwyniad gan Mr Julian Evans, Cei Newydd: Nos Fawrth, 18 Hydref: "Diffibrilwyr".
Presentation by Mr Julian Evans (Calonnau Cymru), New Quay: "Defibrillators".
Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys: (Dafydd Llywelyn): Nos Fawrth, 1 Tachwedd.
Presentation by the Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner (Dafydd Llywelyn): Tuesday, 1 November.
Sul y Cofio, 13 Tachwedd—Ymgynnull yn Neuadd y Dref am 10.15yb.
Remembrance Sunday Service—13 November. To assemble at the Guildhall at 10.15am.
Tachwedd 15—Cyflwyniad gan Mr Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion.
November 15—Presentation by Mr Osian Jones, Community Access Officer, Ceredigion County Council
Rhagfyr 3—Cynnau'r goleuadau Nadolig gan y Maer o flaen Neuadd y Dref am 4.30yp.
December 3—Switch-on of Christmas lights by the Mayor in front of the Guildhall at 4.30pm.